

Dosbarth Meistr Gwerth Cymdeithasol

Mesur Gwerth Iechyd y Cyhoedd

25 Ionawr 2024

Mariana Dyakova, Ymgynghorydd Iechyd y Cyhoedd, Dirprwy
Gyfarwyddwr ac Arweinydd Iechyd Rhyngwladol

Kathryn Ashton, Rheolwr Rhaglen

Anna Stielke, Swyddog Datblygu Tystiolaeth Rhyngwladol

**Canolfan Gydweithredol WHO ar Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant,
Iechyd Cyhoeddus Cymru**

Social Value Masterclass

Measuring the Value of
Public Health

25 January 2024

Mariana Dyakova, Consultant in Public Health, Deputy Director and
International Health Lead

Kathryn Ashton, Programme Manager

Anna Stielke, International Evidence Development Officer

**WHO Collaborating Centre on Investment for Health and Wellbeing,
Public Health Wales**

Agenda

Amser	Item
5 munud	Cyflwyniad a gosod y cefndir
10 munud	Cyd-destun strategol a pholisi
10 munud	Beth yw gwerth?
15 munud	Beth yw gwerth cymdeithasol?
15 munud	Holi ac Ateb cychwynnol a myfyrdodau
Sesiwn ryngweithiol	
20 munud	Cwestiynau i'w trafod:
Egwyl cysur (10 munud)	
15 munud	Sut gallwn ni fesur Gwerth Cymdeithasol?
25 munud	Cymwysiadau ymarferol ym maes iechyd y cyhoedd ac enghreifftiau
15 munud	Holi ac Ateb, myfyrdodau, y camau nesaf a chau

Agenda

Time	Item
5mins	Introduction and setting the scene
10mins	Strategic and policy context
10mins	What is value?
15mins	What is social value?
15mins	Initial Q&A and reflections
Interactive session	
20mins	Questions to discuss:
Comfort break (10mins)	
15mins	How can we measure Social Value?
25mins	Practical applications in public health and examples
15mins	Q&A, reflections, next steps and close



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

Cyd-destun Strategol a Pholisi

Strategic and Policy Context

Heriau byd-eang a chenedlaethol...

- **Heriau:** demograffig, economaidd, annhegwch, risgiau a bygythiadau byd-eang...
- **Tystiolaeth a Gwerth:** 'beth sy'n gweithio' - 'beth sydd bwysicaf' - 'elfennau gorau'
- **Arloesi:** technolegau newydd ac AI, trawsnewid, integreiddio...

Cydbwyso

- Pwysau uniongyrchol ar y sector cyhoeddus **vs**
- Cynaliadwyedd hirdymor

Global and national challenges...

- **Challenges:** demographic, economic, inequity, global risks and threats...
- **Evidence & Value:** 'what works' - 'what matters most' - 'best buys'
- **Innovation:** new technologies & AI, transformation, integration...


Balancing

- Immediate pressures on the public sector **vs**
- Long-term sustainability

...a chyfleoedd

Symudiad tuag at


- **Economi Llesiant** gyda'r GIG fel galluogwr ac ysgogwr (Economi Sylfaenol)
- **Atal ac ymyrraeth gynnar** ar hyd **Cwrs Bywyd**
- Gwasanaethau ac ymyriadau **seiliedig ar werth** sy'n canolbwyntio ar yr hyn sydd bwysicaf i
- **System wydn gynaliadwy integredig sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ar gyfer** iechyd a llesiant yn cael ei gyrru gan dystiolaeth, gwerth ac arloesedd



...and opportunities

A shift towards

- **Wellbeing Economy** with NHS as an enabler and driver (Foundational Economy)
- **Prevention and early** intervention along the **Life Course**
- **Value-Based** services and interventions focusing on what matters most to people
- **Integrated person-centred sustainable resilient system for** health and wellbeing driven by evidence, value & innovation



Cymru – Safle Arloesi Byw

Byd-eang

Agenda ar gyfer Datblygu Cynaliadwy 2030 (NDC)
 Economi Llesiant (y tu hwnt i CMC)
 Blaenoriaethau a mentrau WHO

DU

Deddf Gwerth Cymdeithasol
 Datganoli, trawsnewid, digideiddio...

Cymru

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)
 Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol
 Cymru Iachach
 Economi Sylfaenol Cymru Iachach
 MOU WHO/Llyw Cymru
 Canolfan Gydweithredol WHO



Wales – a Live Innovation Site

Global


2030 Agenda for Sustainable Development (SDGs)
 Wellbeing Economy (beyond GDP)
 WHO priorities and initiatives

UK

Social Value Act
 Decentralisation, transformation, digitalisation...


Wales

Wellbeing of Future Generations (Wales) Act
 Socio-economic Duty
 A Healthier Wales
 Healthier Wales Foundational Economy
 WHO/Welsh Gov MOU
 WHO Collaborating Centre




Ysgogiad sefydliadol...

Gwerth ac Effaith – y tu hwnt i 'werth am arian'



Organisational drive...

Value and Impact – beyond 'value for money'



Canolfan Gydwethredol WHO (WHO CC) ar Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant

WHO Collaborating Centre (WHO CC) on Investment for Health and Well-being

- Y cyntaf a'r unig un yn ei faes gwaith yn fyd-eang
- Rhwydwaith o fwy na 800 o ganolfannau cydwethredol WHO ar draws dros 80 o wledydd
- Yn llywio ac yn cefnogi polisiau, camau gweithredu ac atebion i gyflawni bywydau iach, ffyniannus ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol
- Gweithio ar y cyd ar draws y DU ac yn fyd-eang...



- The first and only one in its area of work globally
- Network of more than 800 WHO collaborating centres across in over 80 countries
- Informs and supports policies, action and solutions to achieve healthy prosperous lives for current and future generations
- Working collaboratively across the UK and globally...



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

Beth yw gwerth? What is value?



Beth yw gwerth?

Pan rydym wedi gofyn y cwestiwn hwn yn flaenorol, cawsom ymatebion fel:

<p>Pa mor werth chweil yw rhywbeth o ran cost a gwerthfawrogiad personol</p>	<p>Mae'r buddion yn fwy na'r mewnbwn ariannol</p>	<p>Pa mor ddefnyddiol/da yw rhywbeth</p>
<p>Siarad â defnyddwyr gwasanaeth am yr hyn sy'n bwysig iddynt</p>	<p>Canlyniad cadarnhaol i'r unigolyn a chymdeithas</p>	<p>Ansawdd cost effeithiol</p>

Nid oes un diffiniad unigol

What is value?

When we have previously asked this question, we have had responses such as:

<p>How worthwhile something is in terms of cost and personal appreciation</p>	<p>Benefits are greater than the financial input</p>	<p>How useful/good something is</p>
<p>Talk to service users about what matters to them</p>	<p>Positive outcome for individual and society</p>	<p>Cost effective quality</p>

There is no single definition


Beth yw gwerth?

Yn hanesyddol, mae diffiniadau o werth wedi canolbwyntio ar ei **werth ariannol**, neu'r gallu i **wneud mwy gyda llai o adnoddau**.

Cymhareb syml o **ganlyniadau** i **gost**.

Erbyn hyn, mae'r ffocws wedi symud oddi wrth werth fel **ymarfer torri costau** yn unig.

Yn hytrach na chanolbwyntio ar gostau ac enillion yn unig, mae diffiniadau ehangach o werth wedi'u cynnig sy'n **ystyried gwerth o safbwyntiau lluosog**.



What is value?

Historically, definitions of value have focused on its **monetary worth**, or the ability to **do more with fewer resources**.

Simple ratio of **outcomes** to **cost**.

Nowadays, the focus has shifted away from value as simply a **cost-cutting exercise**.

Instead of just focusing on costs and returns, broader definitions of value have been proposed that **consider value from multiple perspectives**.


Beth yw gwerth?

Mae'r Panel Arbenigol ar Ffyrdd Effeithiol o Fuddsoddi mewn Iechyd (2019) wedi cynnig cysyniad o werth wedi'i adeiladu ar **bedwar piler gwerth**, a elwir yn gyffredin yn 'Gofal Iechyd Seiliedig ar Werth':


Gwerth
Dyraniadol




Gwerth
Technegol



Gwerth
Personol




Gwerth
Cymdeithasol




What is value?

The Expert Panel on Effective Ways of Investing in Health (2019) have proposed a concept of value built on **four value-pillars**, commonly known as 'Value-Based Healthcare':


Allocative
Value




Technical
Value



Personal
Value



Societal
Value



Beth yw gwerth?

Gwerth Dyraniadol



Dosbarthu adnoddau yn deg ar draws yr holl grwpiau cleifion/defnyddwyr gwasanaeth

Gwerth Technegol



Cyflawni'r **canlyniadau gorau** posibl gyda'r adnoddau sydd ar gael

Gwerth Personol




Gofal priodol i **gyflawni nodau personol** cleifion/defnyddwyr gwasanaeth

Gwerth Cymdeithasol



Cyfraniad gofal iechyd i **gyfranogiad cymdeithasol** a chysylltedd



What is value?

Allocative Value



Equitable **distribution of resources** across all patient/ service user groups

Technical Value



Achievement of **best possible outcomes** with available resources

Personal Value



Appropriate care to **achieve patients / service users personal goals**

Societal Value





Contribution of healthcare to **social participation and connectedness**


Beth yw gwerth?

Gellir ystyried gwerth hefyd o dair ongl:

1. **Cydrannau** – cost, canlyniadau



2. **Safbwyntiau** - yn amrywio yn ôl grŵp rhanddeiliaid yn dibynnu ar anghenion ac ati. Er enghraifft, defnyddiwr gwasanaeth, cyllidwr, y gymuned ehangach



3. **Cwmpas** - math o raglen neu ymyriad



What is Value?

Value can also be considered from three angles:

1. **Components** – cost, outcomes

2. **Perspectives** – differs by stakeholder group dependent on needs etc. For example, service user, funder, wider community

3. **Scope** – type of programme or intervention



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

Beth yw Gwerth Cymdeithasol?

What is Social Value?



Gwerth Cymdeithasol

Gwerth cymdeithasol yw “meintioli’r pwysigrwydd cymharol y mae pobl yn ei roi ar y newidiadau y maent yn eu profi yn eu bywydau”.

Mae'r rhan fwyaf o ddiffiniadau gwerth cymdeithasol yn cynnwys thema creu neu ddarparu manteision **economaidd**, **cymdeithasol**, ac **amgylcheddol** i ardal, cymuned neu grŵp o randdeiliaid.



Social Value

Social value is “the quantification of the relative importance that people place on the changes they experience in their lives”.


Most social value definitions include the theme of creating or providing **economic**, **social**, and **environmental** benefits for an area, a community or a group of stakeholders.



Cyd-destunau Gwerth Cymdeithasol

Er mwyn deall gwerth cymdeithasol yn llawn, mae'n bwysig deall **y cyd-destun y mae gwerth cymdeithasol yn cael ei fesur ynddo.**


Bydd y **cyd-destun y mae'r gwerth cymdeithasol yn cael ei fesur ynddo** yn amrywio yn dibynnu ar:



Social Value Contexts

To fully understand social value, it is important to understand **the context in which the social value is being measured.**

The **context in which the social value is being measured** will be vary depending on




Cyd-destunau Gwerth Cymdeithasol



Mae yna **sawl rheswm pam** gallai sefydliadau ddefnyddio gwerth cymdeithasol.


Er enghraifft:

- Dangos sut y gall y gwasanaethau y maent yn mynd i'w prynu sicrhau manteision ehangach i'w hardal neu randdeiliaid
- Denu cyllid
- Dangos gwerth am arian
- Tynnu sylw at y gwaith da y maent yn ei wneud ar gyfer y cyhoedd
- Mae Gwerth Cymdeithasol yn ganolog i'w cenhadaeth



Er y gall y rhesymau amrywio, mae dangos effaith gadarnhaol ar gyfer yr **economi**, **cymdeithas** a'r **amgylchedd** yn nod canolog i holl ysgogwyr gwerth cymdeithasol.

Social Value Contexts



There are **several reasons why** organisations may use social value.

For example:

- To demonstrate how the services they are going to buy can secure wider benefits to their area or stakeholders
- To attract funding
- Demonstrate value for money
- Highlight the good work they are doing for the public
- Social Value is central to their mission



Although the reasons may vary, demonstrating a positive impact for the **economy**, **society** and the **environment** is a central aim of all drivers of social value.

Cyd-destunau Gwerth Cymdeithasol

Pwy neu beth sy'n creu'r gwerth cymdeithasol?

Bydd y ffordd y caiff gwerth cymdeithasol ei ddiffinio hefyd yn amrywio yn ôl ffynhonnell y gwerth cymdeithasol. Gall sawl sefydliad gynhyrchu gwerth cymdeithasol.

Er enghraifft:

- Polisiâu neu brosesau
- Gweithredu neu ddiffyg gweithredu sefydliadau neu ymyriadau
- Gweithredu neu ddiffyg gweithredu unigolion eraill
- Gweithredoedd wedi'u dychmygu neu eu hawgrymu
- Presenoldeb eraill
- Newid yn yr amgylchedd naturiol

Cyd-destun Gwerth Cymdeithasol

Social Value Contexts

Who or what is creating the social value?

The way in which social value is defined will also vary according to the source of the social value. Several organisations may produce social value.

For example:

- Policies or processes
- The action or inaction of organisations or interventions
- The action or inaction of other individuals
- Imagined or implied actions
- Presence of others
- Change in the natural environment

Social Value Context

Cyd-destunau Gwerth Cymdeithasol

Pwy neu beth yr effeithir arno?

Bydd y diffiniad o Werth Cymdeithasol yn amrywio yn ôl pwy neu beth yr effeithir arno. Gall y Gwerth Cymdeithasol fod **wedi'i anelu'n benodol at berson neu gynnyrch unigol** neu gael ei deimlo'n eang.

Cyd-destun Gwerth Cymdeithasol

Er enghraifft:

- Unigolion
- Cymunedau
- Cymdeithas yn gyffredinol
- Yr economi
- Yr amgylchedd/adnoddau naturiol
- Cynhyrchion neu wasanaethau

Social Value Contexts

Who or what is impacted?

The definition of Social Value will vary according to who or what is impacted. The Social Value may be **aimed specifically at a single person or product** or be felt broadly.

Social Value Context

For example:

- Individuals
- Communities
- Society as a whole
- The economy
- The environment/natural resources
- Products or services

Cyd-destunau Gwerth Cymdeithasol

Beth yw natur yr effaith?

Bydd y diffiniad o Werth Cymdeithasol hefyd yn amrywio yn ôl natur yr effaith.

Er enghraifft:

- Llesiant goddrychol / Ansawdd bywyd
- Gwybodaeth / Sgiliau / Cyflogaeth
- Cymhelliant / Credoau
- Ymddygiad
- Cysylltiadau cymdeithasol / Cyfalaf cymdeithasol
- Cydraddoldeb a chynhwysiant
- Cynhyrchiant / elw
- Adnoddau gwario
- Llygredd / Cyflenwad adnoddau naturiol

Cyd-destun Gwerth Cymdeithasol

Social Value Contexts

The definition of Social Value will also vary according to the nature of the impact.

For example:

- Subjective wellbeing / Quality of life
- Knowledge / Skills / Employment
- Motivation / Beliefs
- Behaviour
- Social relations / Social capital
- Equality and inclusion
- Productivity / profit
- Spending resources
- Pollution / Natural resource supply

What is the nature of the impact?

Social Value Context

Cyd-destunau Gwerth Cymdeithasol

Sut mae'r effaith yn cael ei mesur?

Cyd-destun Gwerth Cymdeithasol

Gellir mesur Gwerth Cymdeithasol mewn sawl ffordd.

Er enghraifft:

- Hunan-adroddiad meintiol
- Cyfrifon ansoddol / Arsylwi
- Dewis wedi'i nodi neu ei ddatgelu
- Parodrwydd i dalu
- Canlyniadau caled
- Dadansoddiad ariannol uniongyrchol

Social Value Contexts

How is the impact measured?


Social Value Context

Social Value can be measured in several ways.

For example:

- Quantitative self-report
- Qualitative accounts / Observation
- Stated or revealed preference
- Willingness to pay
- Hard outcomes
- Direct financial analysis

Dulliau Gwerth Cymdeithasol



Social Value Approaches

The way in which Social Value is **valued** can also affect the context in which it is used and defined.

Gall y modd y **gosodir gwerth** ar Werth Cymdeithasol hefyd effeithio ar y cyd-destun y caiff ei ddefnyddio a'i ddiffinio ynddo.

Pan fydd Gwerth Cymdeithasol yn ganolog i brosiect, **mae'r pwyslais mewn mesur fel arfer ar y newid sy'n cael ei greu** gan yr ymyriad ei hun. Mae rhyw fath o fodel 'theori newid' yn debygol o gael ei ddefnyddio, lle mae mewnbynnau mesuradwy (pobl, adnoddau, cyllid) yn cynhyrchu gweithgareddau sy'n arwain at allbynnau a chanlyniadau mesuradwy.


Lle mae effaith gymdeithasol wrth wraidd y rhaglen neu'r ymyriad, mae tuedd i fesur y gwahaniaeth a wneir drwy ystyried mesur gwrth-ffeithiol neu drwy ystyried y gwahaniaeth rhwng poblogaeth darged yr ymyriad, a grŵp rheoli o grŵp poblogaeth wahanol.

When Social Value is placed at the core of a project, **the emphasis in measurement is usually on the change that is created** by the intervention itself. Some form of 'theory of change' model is likely to be used, in which measurable inputs (people, resources, finance) generate activities that lead to measurable outputs and outcomes.

Where social impact is at the core of the programme or intervention, measurement of the difference made tends to be done by taking account of a counter-factual measure or by considering the difference between the target population of the intervention and a control group of a different population.

Dulliau Gwerth Cymdeithasol

- Gellir gosod Gwerth Cymdeithasol ar y cyrion. Gwelir hyn amlaf mewn dulliau a arweinir gan gaffael. Mewn dulliau gweithredu a arweinir gan gaffael, fel y'u nodweddir gan y Ddeddf Gwerth Cymdeithasol, mae gwerth cymdeithasol, economaidd neu amgylcheddol yn cael ei weld fel budd ychwanegol o gyflawni'r contract craidd.



Lle mae gwerth cymdeithasol yn cael ei greu drwy gyflenwi contract, gellir ystyried hyn fel budd ychwanegol na fyddai wedi'i gyflawni yn absenoldeb y contract.

- Gwahaniaeth posibl arall yw bod dulliau a arweinir gan gaffael at werth cymdeithasol yn dilyn proses sydd wedi'i diffinio'n glir mewn perthynas â thendro a chontractio a all gynnwys sgorio fel ffordd o asesu gwerth cymdeithasol arfaethedig gwahanol gynigwyr yn oddrychol.

Social Value Approaches

- Social Value may be placed at the periphery. This is most often seen in procurement-led approaches. In procurement-led approaches, as typified by the Social Value Act, social, economic or environmental value is seen as an additional benefit of the delivery of the core contract.

Where the social value is created through the delivery of a contract, this can be seen as an additional benefit that would not have been achieved in the absence of the contract.

- Another potential distinction is that procurement-led approaches to social value follow a clearly defined process in relation to tendering and contracting that can include scoring as a way to assess the proposed social value of different bidders subjectively.

Gwerth Cymdeithasol

Mae Gwerth Cymdeithasol yn gynyddol bwysig i helpu i ddarparu'r gwerth mwyaf am arian. Gellir ymgorffori Gwerth Cymdeithasol mewn:

Social Value

Social Value is increasingly important to help deliver the most value for money. Social Value can be embedded in:



Caffael a chomisiynu



Buddsoddi a blaenoriaethu adnoddau/cyllidebau



Procurement and commissioning



Investment and resource/budget prioritisation



Asesu a gwerthuso



Assessment and evaluation

Gwerth Cymdeithasol mewn Iechyd y Cyhoedd

Mae pandemig Coronafeirws wedi datgelu canlyniadau **diffyg adnoddau digonol mewn iechyd y cyhoedd** a thynnodd sylw at yr annibyniaeth glir rhwng iechyd y boblogaeth, llesiant cymdeithasol, a'r economi.

Mae'r achos o blaid **buddsoddiad wedi'i dargedu mewn tegwch iechyd a llesiant pobl** yn gryfach nag erioed, sy'n gofyn am weithredu cydlynol ar draws y GIG a sectorau eraill – cynyddu gwerth ac effaith gwasanaethau cyhoeddus ac ymyriadau i'r eithaf.

Social Value in public health

The Coronavirus pandemic has exposed the consequences of **under resourcing of public health** and highlighted the clear independence between population health, societal well-being, and the economy.

The case for **targeted investment in people's well-being and health equity** is stronger than ever, requiring coherent action across the NHS and other sectors - maximise the value and impact of public services and interventions.

Effaith ehangach iechyd y cyhoedd

Gall Mesur Gwerth Cymdeithasol alluogi sefydliadau iechyd (cyhoeddus) i:

- Deall **yr hyn sy'n bwysig** i bobl, cleifion, teuluoedd a chymunedau;
- Asesu, mesur a thracio **canlyniadau ac effeithiau gwirioneddol** mewn ffordd systematig a chynhwysfawr;
- Dyrannu adnoddau i'r manau lle maent yn cael yr **effaith fwyaf (gwerth)** ar bobl, grwpiau penodol, cymunedau, cymdeithas, yr economi a'r amgylchedd;
- **Buddsoddi mewn ymyriadau gwerth uchel yn gynharach yn y broses** (atal sylfaenol ac ymyrraeth gynnar) i ddiogelu a gwella iechyd a llesiant, ac i leihau annhegwch iechyd;
- Hysbysu a **helpu i sicrhau'r gwerth gorau am arian**, ansawdd a manteision ehangach gwasanaethau ac ymyriadau.

The wider impact of public health

Measuring Social Value can enable (public) health organisations to:

- Understand **what matters** to people, patients, families and communities;
- Assess, measure and track **real outcomes and impacts** in a systematic and comprehensive way;
- Allocate resources to where they are having the **greatest impact (value)** on people, specific groups, communities, society, the economy and the environment;
- **Invest in high value upstream interventions** (primary prevention and early intervention) to protect and improve health and well-being, and to reduce health inequities;
- Inform and **help maximise the value for money**, quality and wider benefits of services and interventions.

Rhaglen waith WHO

Mae'r WHO CC yn **arwain rhaglen waith arloesol 'Iechyd y Cyhoedd Seiliedig ar Werth'** gan ddefnyddio dull Gwerth Cymdeithasol.

Arloesi, hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth a gwella gweithrediad ar y defnydd o ddulliau Gwerth Cymdeithasol yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.

Archwilio tystiolaeth a chyfleoedd i ddatblygu ymhellach y cysyniad, y fethodoleg a chymhwysiad bywyd go iawn Gwerth Cymdeithasol a SROI

Treialu a datblygu'r defnydd o fethodoleg SROI i asesu gwasanaethau ac ymyriadau iechyd y cyhoedd.

Defnyddio arfer gorau a phrofiad cenedlaethol a rhyngwladol

Helpu i adeiladu dull systemau yn seiliedig ar dystiolaethu Gwerth Cymdeithasol

WHO programme of work

The WHO CC is leading an **innovative 'Value-Based Public Health' programme of work** applying a Social Value approach.

Pioneer, promote and raise awareness and enhance implementation on the use of Social Value methods nationally and internationally .

Explore evidence and opportunities to develop further the concept, methodology and real life application of Social Value and SROI

Pilot and progress the application of SROI methodology to assess public health services and interventions.

Utilise national and international best practice and experience

Help build a systems approach based on evidencing Social Value



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

Holi ac Ateb ac adfyfyrio

Q&A and reflections





GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

Sesiwn Ryngweithiol

Interactive Session



**Join at [menti.com](https://www.menti.com)
Use code: 4516 6956
Or use the QR code**



Cwestiynau

1. Beth mae gwerth cymdeithasol yn ei olygu i chi?
2. Beth ydych chi'n meddwl yw manteision nodi gwerth cymdeithasol?
3. Beth ydych chi'n meddwl yw'r rhwystrau/heriau i nodi gwerth cymdeithasol?
4. Yn wyneb pwysau digynsail ar y GIG, sut y gall dulliau gwerth cymdeithasol helpu i ysgogi cynaliadwyedd, gwytnwch a llesiant y boblogaeth?
5. Pa ddangosyddion neu fetrigau penodol y dylid eu blaenoriaethu wrth asesu gwerth cymdeithasol?
6. Sut byddech chi'n defnyddio gwerth cymdeithasol i gefnogi eich gwaith/amcanion/blaenoriaethau?

Questions

1. What does social value mean to you?
2. What do you think are the benefits of capturing social value?
3. What do you think are the barriers/challenges to capturing social value?
4. In the face of unprecedented NHS pressures, how can social value approaches help drive sustainability, resilience and population wellbeing?
5. What specific indicators or metrics should be prioritized when assessing social value?
6. How would you use social value to support your work/objectives/priorities?



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

Egwyl Cysur

Comfort Break



Pam mae mesur gwerth yn bwysig?

- Mae **pobl** yn rhoi gwerth uchel iawn ar fyw bywyd hirach ac iachach – mesur yr hyn sydd bwysicaf i'r holl randdeiliaid/defnyddwyr/grwpiau – helpu i ddylunio gwasanaethau a rhaglenni o ansawdd ymatebol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn (cyfranogiad, cydgynhyrchu, grymuso, tegwch...)
- **Sefydliadau** yn symud oddi wrth 'werth am arian' tuag at werth ehangach (cymdeithasol/cyhoeddus) a mwy o gyfrifoldeb corfforaethol i fodloni gofynion cyfreithiol, economaidd ac amgylcheddol (e.e. Deddf Gwerth Cymdeithasol)
- **Cyllidwyr a buddsoddwyr** (e.e. Byrddau Iechyd Lleol, ALLau, comisiynwyr) angen tystiolaeth a data mwy cynhwysfawr a pherthnasol – ar gyfer effeithlonrwydd a blaenoriaethu o fewn adnoddau cyfyngedig tra'n sicrhau'r budd a'r effaith fwyaf posibl, gan gynnwys tegwch dosbarthiad

Why measuring value is important?

- **People** place very high value on living a longer healthier life – measuring what matters most to all stakeholders/ users/ groups - help design person-centred responsive quality services and programmes (participation, co-production, empowerment, equity...)
- **Organisations** moving away from 'value for money' towards wider (social/public) value and increased corporate responsibility to satisfy legal, economic and environmental requirements (eg Social Value Act)
- **Funders & investors** (eg HBs, LAs, commissioners) require more comprehensive and relevant evidence & data – for efficiency and prioritisation within limited resources while maximising benefit and impact, including distributional equity

Pam mae mesur gwerth yn bwysig?

- **Llywodraethau ac asiantaethau byd-eang** (CU/WHO) yn gallu cyflwyno ysgogiadau a chymhellion deddfwriaethol, ariannol neu amgylcheddol ffafriol - i helpu i gyflawni poblogaethau iachach, cymdeithasau tecach, economïau cynhwysol cynaliadwy a chynaliadwyedd y blaned; ac i fesur cynnydd
- Mae angen **i ymarferwyr a gweithredwyr** fesur holl effeithiau a chynnydd polisi/rhaglenni (mae'r hyn a fesurir yn cael ei wneud) - i ddenu cyllid a dangos y gwerth amdano; i sicrhau dichonoldeb, cynaliadwyedd ac atebolrwydd; ac ar gyfer gwella ansawdd
- **Ymchwilwyr ac economegwyr** yn edrych ar ddatblygu ymhellach y dulliau a'r offer trwy gymhwyso a dysgu mewn gwahanol leoliadau/ cyd-destunau – i fesur y pethau cywir yn y ffordd gywir

Why measuring value is important?

- **Governments & global agencies** (UN/WHO) can introduce favourable legislative, financial or environment levers and incentives - to help achieve healthier populations, fairer societies, sustainable inclusive economies and planetary sustainability; and to measure progress
- **Practitioners and implementers** need to measure all policy/programme impacts and progress (what's measured gets done) - to attract funding and demonstrate the value for it; to ensure feasibility, sustainability and accountability; and for quality improvement
- **Researchers and economists** look at developing further the methods and tools through application and learning in different settings/ contexts – to measure the right things in the right way

Sut gallwn ni fesur Gwerth Cymdeithasol?

Y fframwaith Elw Cymdeithasol ar Fuddsoddiad (SROI)

Oliver Kempton

Ionawr 2024

How can we measure Social Value?

The Social Return on Investment (SROI) framework

Oliver Kempton

January 2024

Ynglŷn ag Elw Cymdeithasol ar Fuddsoddiad

About Social Return on Investment

Mae Elw Cymdeithasol ar Fuddsoddiad (“SROI”) yn fframwaith ar gyfer rhoi cyfrif am greu gwerth, gan gynnwys gwerth cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol. Mae SROI yn galluogi sefydliadau i fesur faint o newid sy'n cael ei greu neu ei ddinistrio, ac yn gosod gwerth ariannol ar y canlyniadau. **Yn benodol, gall dadansoddiad SROI helpu sefydliad i ddeall a yw prosiect neu raglen benodol yn cynrychioli *gwerth am arian*.**

Mae SROI yn gysylltiedig â'r cysyniad o 'Werth Cymdeithasol', ac weithiau mae'r termau'n cael eu defnyddio'n gyfnewidiol. Mae Social Value International [yn disgrifio Gwerth Cymdeithasol](#) fel a ganlyn: *“Mae gwerth cymdeithasol yn ymwneud â deall pwysigrwydd cymharol newidiadau y mae pobl yn eu profi a defnyddio'r mewnwediadau a gawn o'r ddealltwriaeth hon i wneud penderfyniadau gwell”.*

Social Return on Investment (“SROI”) is a framework for accounting for value creation, including social, economic, and environmental value. SROI enables organisations to measure how much change is being created or destroyed, and places a monetary value on the outcomes. **In particular, an SROI analysis can help an organisation to understand whether a particular project or programme represents *value for money*.**

SROI is linked to the concept of ‘Social Value’, and the terms are sometimes used interchangeably. Social Value International [describes Social Value](#) as follows: *“Social value is about understanding the relative importance of changes that people experience and using the insights we gain from this understanding to make better decisions”.*

Elw Cymdeithasol ar Fuddsoddiad

Social Return on Investment

Cymhareb SROI = $\frac{[\text{Gwerth y buddion}]}{[\text{Buddsoddiad}]}$

- Mae'n werthusiad sy'n seiliedig ar ganlyniadau
- Mae'n mesur newid sydd o bwys i randdeiliaid
 - Canolbwyntio ar atebolrwydd am effaith gyffredinol, yn hytrach na chyflawni amcanion
- Mae'n gosod gwerth ariannol ar bob canlyniad materol

SROI ratio = $\frac{[\text{Value of benefits}]}{[\text{Investment}]}$

- It is an outcomes-based evaluation
- It measures change that matters to stakeholders
 - Focus on accountability for overall impact, rather than achieving objectives
- It places a monetary value on all material outcomes

Egwyddorion gwerth cymdeithasol

The principles of social value

Mae gwerth cymdeithasol yn defnyddio set o egwyddorion i arwain arfer gorau. Rheolir yr egwyddorion a'r canllawiau gan Social Value International

1. Cynnwys rhanddeiliaid
2. Deall beth sy'n newid
3. Rhowch werth ar y pethau sy'n bwysig
4. Cynhwyswch yr hyn sy'n berthnasol yn unig
5. Peidiwch â gor hawlio
6. Byddwch yn dryloyw
7. Gwiriwch y canlyniadau
8. Byddwch yn ymatebol

Social value draws on a set of principles to guide best practice. The principles and guidance are managed by Social Value International

1. Involve stakeholders
2. Understand what changes
3. Value the things that matter
4. Only include what is material
5. Do not over claim
6. Be transparent
7. Verify the results
8. Be responsive

Camau SROI / Stages of SROI

Mae dadansoddiad SROI yn mynd rhagddo yn ôl chwe cham:

1. Sefydlu cwmpas a nodi rhanddeiliaid

2. Mapio canlyniadau

3. Dangos tystiolaeth am ganlyniadau a rhoi gwerth arnynt

4. Sefydlu effaith

5. Cyfrifo'r SROI

6. Adrodd, defnyddio ac ymgorffori

An SROI analysis proceeds according to six stages:

1. Establishing scope and identifying stakeholders

2. Mapping outcomes

3. Evidencing outcomes and giving them a value

4. Establishing impact

5. Calculating the SROI

6. Reporting, using and embedding

Mapio canlyniadau: ystyriaethau allweddol

Mapping outcomes: key considerations

- Canolbwyntiwch ar ganlyniadau yn hytrach nag allbynnau ar gyfer cyfrifo gwerth cymdeithasol
- Ystyriwch y canlyniadau i'r rhai yr effeithir arnynt yn anuniongyrchol (e.e. aelodau o'r teulu, gofalwyr, gwasanaethau'r llywodraeth)
- Osgowch gyfrif ddwywaith trwy ganlyniadau sy'n gorgyffwrdd. Gellir cyflawni hyn drwy ganolbwyntio ar 'ganlyniadau terfynol' (y rhoddir gwerth ariannol iddynt) ochr yn ochr â 'chanlyniadau canolradd' (na roddir werth ariannol iddynt)
- Focus on outcomes rather than outputs for the calculation of social value
- Consider outcomes for those affected indirectly (e.g. family members, carers, government services)
- Avoid double counting through overlapping outcomes. This might be achieved by a focus on 'final outcomes' (which are given a monetary value) alongside 'intermediate outcomes' (which are not given a monetary value)

Mesur goddrychol / Subjective measurement

“Mae ymchwil wedi dangos ei bod yn bosibl casglu data ystyrlon a dibynadwy ar lesiant goddrychol... **dylid mesur llesiant goddrychol [ar wahân]** i gael mesuriad mwy cynhwysfawr o ansawdd bywyd pobl ac i ganiatáu gwell dealltwriaeth o’r penderfynyddion (gan gynnwys cyflyrau gwrthrychol pobl).”

Joseph Stiglitz

“Research has shown that it is possible to collect meaningful and reliable data on subjective wellbeing... **subjective well-being should be measured [separately]** to derive a more comprehensive measure of people’s quality of life and to allow a better understanding of its determinants (including people’s objective conditions).”

Joseph Stiglitz

Mynegai Llesiant WHO-5

<i>Over the last two weeks:</i>	All the time	Most of the time	More than half of the time	Less than half of the time	Some of the time	At no time
1. I have felt cheerful and in good spirits	5	4	3	2	1	0
2. I have felt calm and relaxed	5	4	3	2	1	0
3. I have felt active and vigorous	5	4	3	2	1	0
4. I woke up feeling fresh and rested	5	4	3	2	1	0
5. My daily life has been filled with things that interest me	5	4	3	2	1	0

Rhoi gwerth ariannol ar ganlyniadau

Placing a monetary value on outcomes

Mae llawer o SROI yn defnyddio dull economeg gofal iechyd o brisio canlyniadau.

Diffiniad QALY:

“Mesur o gyflwr iechyd person neu grŵp lle mae’r buddion, o ran hyd oes, yn cael eu haddasu i adlewyrchu ansawdd bywyd. Mae un flwyddyn bywyd wedi’i haddasu gan ansawdd (QALY) yn hafal i 1 flwyddyn o fywyd mewn iechyd perffaith.

